

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Annibynnol New Hall

Ward Adferiad, Ward Clwyd a
Ward Glaslyn

Gofal Iechyd Meddwl (DU)

Dyddiad yr arolygiad:

20 – 22 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 23 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	27
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	28
	Atodiad B – Cynllun gwella	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Annibynnol New Hall gyda'r nos ar 20 Tachwedd, ac ar y diwrnodau dilynol, sef 21 a 22 Tachwedd 2017. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Glaslyn – Diogelwch Isel – 12 gwely
- Ward Clwyd – Adsefydlu dan glo – 12 gwely
- Ward Adferiad – Adsefydlu Agored – 8 gwely

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl a enwebwyd) ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd New Hall yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd dymunol a oedd yn briodol i'r grŵp cleifion.

Roedd gwaith tîm amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu a gweithlu sefydlog a oedd yn darparu gofal cyson sy'n canolbwyntio ar y claf. .

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd staff y ward a'r uwch-reolwyr yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn barchus
- Darparu amrywiaeth o gyfleusterau priodol mewn amgylchedd gofal dymunol sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.
- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf er mwyn cynorthwyo adferiad a chefnogi cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau.
- Trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.
- Safon broffesiynol uchel o gadw cofnodion a oedd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod mecanwaith priodol wedi'i osod ar ddrysau tân
- Sicrhau nad yw peiriannau jêl saniteiddio'n wag
- Cofnodi unrhyw anghenion cleifion sydd heb eu diwallu o fewn Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

Gwnaethom nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â Rheoli Risg, Iechyd a Diogelwch, ac Atal a Rheoli Heintiau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae New Hall wedi'i gofrestru i ddarparu gofal iechyd meddwl annibynnol yn Ysbyty Annibynnol New Hall, Ffordd New Hall, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6HB.

Mae cyfanswm o 32 gwely yn y gwasanaeth, ac mae'n darparu gofal i ddynion yn unig ar draws y tair ward. Ar adeg ein harolygiad, roedd 23 o gleifion.

Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 1 Ebrill 2002.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys Rheolwr yr Ysbyty, Dirprwy Reolwr yr Ysbyty, a Rheolwr Cyfleusterau, Seiciatrydd Ymgynghorol, Seicolegydd Clinigol a dau gynorthwydd seicoleg, dau therapydd galwedigaethol a phedwar cynorthwydd therapi galwedigaethol, gweithiwr cymdeithasol, nyrs bractis, nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Roedd y gwaith o weithredu'r ysbyty o ddydd i ddydd wedi'i gefnogi gan dimau neilltuedig o staff gweinyddol, ystadau, cadw tŷ ac arwylo.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod staff y ward, uwch-reolwyr a'r staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, ac yn trin cleifion ag urddasrwydd a pharch.

Roedd yr ysbyty yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i rieni, teuluoedd, ffrindiau a'r staff roi adborth o ran y gofal a ddarperir.

Roedd yr ysbyty wedi cael ei ailwampio i safon uchel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a oedd yn darparu amgylchedd gofal dymunol iawn. .

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu, amddiffyn a gwella iechyd a mentrau ar gael i'r cleifion yn New Hall a oedd yn cynorthwyo wrth gynnal a chadw a gwella llesiant cleifion.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu a gwella iechyd yn cael ei harddangos yn yr ysbyty a oedd yn cynorthwyo wrth gynnal a chadw a gwella llesiant cleifion. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fwyta'n iach, rhoi'r gorau i ysmegu, a phatrymau cwsg iach.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi penodi nyrs bractis yn ddiweddar¹ ac roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at feddyg teulu, gwasanaethau deintyddol, a gweithwyr proffesiynol iechyd corfforol eraill yn ôl y gofyn. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos asesiadau corfforol a monitro manwl a phriodol; roedd hyn

¹Roedd y nyrs bractis yn darparu gofal iechyd corfforol ar gyfer Ysbyty New Hall ac Ysbyty Annibynnol Dewi Sant (Gofal Iechyd Meddwl)

yn cynnwys rhestr wirio Fy Iechyd Corfforol² i helpu cleifion i nodi unrhyw anghenion iechyd corfforol a allai fod ganddynt.

Roedd gan New Hall amrywiaeth eang o gyfleusterau a oedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda i gefnogi'r gwaith o ddarparu therapïau a gweithgareddau. Roedd dau therapydd galwedigaethol llawn amser; neilltuwyd un ohonynt i weithio ar y ward ddiogelwch isel, sef Ward Glaslyn, a'r llall i weithio yn y ddwy ward adsefydlu, sef Ward Clwyd a Ward Adferiad. Roedd y ddau therapydd galwedigaethol yn cael eu cefnogi gan ddau gynorthwydd therapi galwedigaethol i helpu i hwyluso asesiadau a gweithgareddau.

Roedd gan bob ward ystafelloedd gweithgareddau, cegin therapi galwedigaethol, lolfeydd ac ystafelloedd cyfarfod. Roedd man cymunedol y wardiau adsefydlu yn cynnwys gofod mawr a ddefnyddid ar gyfer nosweithiau sinema a theledu cymunedol, bwrdd pŵl ac ystafell weithgareddau fawr a ddefnyddid ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a chyfarfodydd.

Roedd gampfa ysbyty a oedd yn llawn offer, fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad nid oedd yr un aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant sefydlu cleifion ar gyfer y gampfa. Cadarnhaodd Rheolwr yr Ysbyty fod y gweithiwr a oedd yn gymwysedig wedi gadael y sefydliad a'i fod yn mynd drwy'r broses o nodi aelodau staff addas i ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol.

Roedd gan yr ysbyty ardal arddwriaethol o fewn y gerddi, a oedd yn cynnwys gwelyau blodau uchel, ardal politwnnel fawr, rhedfa a thŷ ieir. Gallai cleifion ddefnyddio'r ardal hon i ddysgu sgiliau newydd, ac roedd gan rai cleifion gyfrifoldebau penodol ar gyfer cyflawni gwaith yn yr ardal arddwriaethol.

Roedd tri cherbyd ysbyty pwrpasol; dau fws mini ac un car. Mae'r rhain yn galluogi'r staff i hwyluso gweithgareddau cleifion ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

²Archwiliad iechyd corfforol ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddw!<https://www.rcpsych.ac.uk/pdf/RethinkPHchecklist.pdf>

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ar waith i gleifion gael hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer y gampfa i'w galluogi i ddefnyddio'r cyfleuster hwn yn ddiogel.

Urddas a pharch

Gwelsom fod staff y ward, uwch-reolwyr a'r staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, ac yn trin cleifion ag urddasrwydd a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol ynghylch eu gwaith, ac yn frwdfrydig o ran sut roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom y staff yn siarad â chleifion mewn lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn dangos parch tuag at gleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol i geisio atal ymddygiad cleifion rhag dwysáu. Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau staff, roeddent yn ymateb gydag agwedd gwrtais, ymatebol a gofalgar.

Roedd polisïau'r ysbyty ac arferion y staff a welwyd yn cyfrannu at gynnal urddas cleifion a gwella gofal unigolledig yn yr ysbyty. Cynhaliwyd cyfarfodydd er mwyn adolygu a thrafod arferion i leihau'r cyfyngiadau ar gleifion yn New Hall yn seiliedig ar risgiau cleifion unigol.

Roedd gwaith adnewyddu sylweddol wedi cael ei wneud i'r ysbyty, gan gynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau o safon uchel trwy'r adeilad, a oedd yn creu amgylchedd gofal hynod ddymunol.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun yr oedd yn gallu cael mynediad ati drwy gydol y dydd. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig lefel dda o breifatrwydd ac urddas i'r cleifion. Roedd drysau'r ystafelloedd gwely yn cloi'n awtomatig ar ôl iddynt gau a oedd rhwystro cleifion eraill rhag dod i mewn; gallai'r staff wrthdroi'r cloeau pe bai angen.

Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely ac roedd yn amlwg y gallai cleifion bersonoli eu hystafelloedd. Roedd digon o le yn yr ystafelloedd gwely i'r cleifion allu storio eu heiddo, a oedd yn cynnwys storfeydd â chlo. Roedd unrhyw eitemau yr ystyriwyd eu bod yn peri risg i ddiogelwch cleifion, megis ellynnau, erosolau ac ati, yn cael eu storio'n ddiogel ac yn drefnus ar bob un o'r wardiau, a byddai'r cleifion yn gofyn i gael gafael arnynt.

Roedd paneli arsylwi yn yr ystafelloedd gwely er mwyn caniatáu i'r staff arsylwi heb agor y drws ac efallai amharu ar y claf. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y

paneli arsylwi ar gau ac yn cael eu hagor i wneud arsylwadau a'u cau yn dilyn hynny. Roedd hyn yn helpu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y claf.

Roedd yr ystafelloedd gwely ar Ward Glaslyn yn en-suite, gyda thoiled, sinc a chawod. Roedd yr holl ystafelloedd gwely ar Ward Clwyd, ac un ystafell wely ar Ward Adferiad yn en-suite, ac yn cynnwys toiled a sinc. Er gwaethaf hyn, roedd digonedd o doiledau a chawodydd ar y ddwy ward i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion er nad oeddent yn gwbl en-suite.

Roedd gan bob ward ystafelloedd a oedd yn addas i'r cleifion gwrdd â staff y ward a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill yn breifat. Hefyd, roedd ystafell ymweld ddymunol iawn yn nerbynfa'r ysbyty ar gael i gleifion gyfarfod ag ymwelwyr, gan gynnwys plant sy'n aelodau teulu. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion ar rai ystafelloedd yn yr ysbyty i esbonio beth oedd eu pwrpas; byddai'r rhain yn fuddiol er mwyn caniatáu i'r staff, y cleifion, ac ymwelwyr wybod beth oedd eu pwrpas.

Roedd ffonau talu ar bob ward er mwyn caniatáu i'r cleifion wneud galwadau ffôn. Roedd cwyllau preifatrwydd ar y ffonau talu hyn, a oedd yn cynnig rhywfaint o breifatrwydd i gleifion. Hefyd, roedd trefniadau addas eraill ar bob ward er mwyn caniatáu i'r cleifion wneud a derbyn galwadau mewn ystafell breifat pe bai angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu rhoi ar y drysau.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Roedd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol ar gael yn yr ysbyty. Roedd yr hysbysfyrddau ar y wardiau yn cynnig gwybodaeth fanwl a pherthnasol i gleifion. Hefyd, roedd amrywiaeth o daflenni a oedd yn esbonio meysydd gofal, meddyginiaeth a'r ysbyty ar gael yn rhwydd i'r cleifion.

Roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn cynnwys gweithgareddau cleifion, gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r ddarpariaeth eiriolaeth, sut i wneud cwyn, a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn treulio amser i gynnal sgysiau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Lle'r oedd cleifion yn aneglur neu wedi camddeall o hyd, byddai'r staff yn ceisio esbonio'r hyn roeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

Roedd cyfarfodydd cynllunio dyddiol bob bore ar y wardiau i drefnu'r gweithgareddau yn yr ysbyty a'r gymuned, ynghyd â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, megis cyfarfodydd cynllunio gofal, apwyntiadau meddygol a thribiwnlysoedd.

Cynhelid cyfarfodydd misol gyda Rheolwr yr Ysbyty lle roedd gan gleifion y cyfle i roi adborth ynghylch y gofal maent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon.

Mewn cyfarfodydd unigol, roedd cleifion yn gallu cael cymorth ac arweiniad gan gyrrff allanol, fel cyfreithwyr neu wasanaethau eiriolaeth. Lle bynnag y bo modd, roedd teuluoedd a gofalwyr y cleifion yn bresennol yn ystod rhai cyfarfodydd, gyda chaniatâd y claf.

Roedd yr ysbyty hefyd yn cynnal Arolwg Boddhad Cleifion ac Arolwg Teulu a Ffrindiau blynyddol. Dangosodd ein hadolygiadau ynghylch y ddau o'r rhain fod cleifion, teuluoedd a ffrindiau'n fodlon iawn ar y gofal a ddarperir yn New Hall. Lle roedd canlyniadau a sylwadau yn llai ffafriol roedd yr ysbyty wedi nodi'r camau y byddai'n eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ffocws clir ar adsefydlu, gyda gofal cleifion unigoledig a oedd yn cael ei gefnogi gan arferion lleiaf cyfyngol, mewn perthynas â chynllunio gofal ac arferion y wardiau neu'r ysbyty.

Roedd gan bob claf eu cynlluniwr gweithgareddau unigol, ac roedd hwn yn cynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp, a oedd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty a'r gymuned (pan oedd yr awdurdodiad gofynnol ar waith). Roedd y gweithgareddau'n amrywiol ac yn canolbwyntio ar adferiad, naill ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion y staff yn cyd-fynd â pholisïau ysbyty sefydledig ac roedd systemau yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd cyfarfodydd cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn i gleifion roi adborth o ran y gofal a ddarperir yn yr ysbyty.

Roedd polisi cwynion a gweithdrefnau ar waith yn New Hall. Mae'r polisi yn nodi strwythur ar gyfer ymdrin â'r holl gwynion gan gleifion ar gyfer gwasanaethau yn yr ysbyty.

Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i hysbysu perthnasau a gofalwyr, gan gynnwys manylion ynghylch sut i roi adborth

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda dodrefn, gosodiadau a ffitiadau a oedd yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd hyn yn caniatáu i'r staff barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd; fodd bynnag, mae angen i'r darparwr cofrestredig nodi, lle bo'n briodol, anghenion cleifion nad ydynt wedi'u diwallu.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd gan New Hall brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn caniatáu i'r staff barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Wrth inni gyrraedd ar y noson gyntaf, penodwyd y nyrs y gwnaethom gwrdd â hi yn nerbynfaf'r ysbyty fel y Pwynt Cyswllt, ond nid oedd yn gallu rhoi manylion penodol ynghylch niferoedd y cleifion a'r staff ar Ward Glaslyn. Roedd y wybodaeth hon ar gael ar Ward Glaslyn yn unig, a oedd yn golygu bod angen cysylltu â'r ward er mwyn canfod y manylion hyn. Yn ystod yr arolygiad datblygodd y darparwr cofrestredig system a oedd yn sicrhau bod gan y Pwynt Cyswllt fynediad at fanylion penodol ynghylch niferoedd y cleifion a'r staff yn yr ysbyty.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe bai angen. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom weld pan oedd larwm personol yn cael ei actifadu fod y staff yn ymateb ar unwaith i gynorthwyo.

Hefyd, roedd pwyntiau galw nyrsys o gwmpas y wardiau ac mewn ystafelloedd y cleifion, gwelliant ers ein harolygiad diwethaf, er mwyn caniatáu i'r cleifion alw am gymorth pe bai angen.

Pan oedd angen, roedd arsylwi uwch yn cael ei gynnal ar gleifion er mwyn sicrhau eu diogelwch nhw a diogelwch pobl eraill. Roedd yr arsylwadau uwch a gyflawnwyd gan y staff yn cael eu cofnodi'n gywir gan y staff, a oedd yn helpu i gynnal diogelwch.

Roedd system gyfrifiadur ddiogel ar waith ar gyfer rheoli a rhoi allwedd i wardiau a'r ysbyty i'r staff. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff ond yn cael allwedd i a oedd yn caniatáu iddynt gael mynediad at ardaloedd o'r ward a'r ysbyty y rhoddwyd awdurdod iddynt gael fynediad atynt. Roedd y staff yn casglu'r allwedd i o gabinet diogel ar bob ward yr oedd angen manylion adnabod personol i'w agor. Nid oedd y staff yn gallu gadael heb ddychwelyd y set o allwedd i cabinet a ddynodwyd ar eu cyfer. Roedd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd yn sylweddol y byddai'r staff yn gadael y ward gydag allwedd i'r ysbyty.

Ar y cyfan, roedd yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a oedd yn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gallai'r staff adrodd i dîm ystadau'r ysbyty ynghylch materion amgylcheddol, ac roedd y tîm hwn yn cadw cofnod o broblemau a'r gwaith yr oedd angen ei wneud a'r gwaith a gwblhawyd. Fe'n hysbyswyd bod tîm ystadau ymatebol ar gyfer yr ysbyty, a bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud mewn da bryd i gontractwyr pan oedd angen.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom un drws tân a oedd wedi ei letemu ar agor ar Ward Clwyd. Roedd hwn yn llwybr y gallai cleifion ei ddefnyddio i gael mynediad at yr ardd, fodd bynnag, pe bai'r drws tân wedi'i gau, ni allai'r cleifion gael mynediad hawdd o'r ardd. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod mecanwaith drws tân priodol wedi cael ei archebu a fydd yn cau'n awtomatig, ac felly, na fyddai'r drws tân yn cael ei letemu ar agor.

Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ysbyty yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg pwyntiau clymu cyfredol ar waith. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau a oedd wedi cael eu cymryd i waredu neu reoli'r rhain.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y system, a oedd yn nodi enwau'r claf (neu gleifion) a'r staff a oedd yn bresennol, disgrifiad o'r digwyddiad, lleoliad a hyd y digwyddiad, a phryd y digwyddodd. Roedd unrhyw ataliaeth a ddefnyddiwyd yn cael ei dogfennu, gan gynnwys pwy gymerodd ran ac osgo corff pob un a oedd ynghlwm wrth atal y claf.

Roedd hierarchaeth cymeradwyo digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau digwyddiadau yn cael eu hadolygu mewn da bryd. Roedd adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu cynhyrchu a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid adolygu a dadansoddi digwyddiadau. Gellid cynhyrchu adroddiadau ychwanegol yn ôl y gofyn i edrych ar feysydd penodol yn ôl yr angen. Roedd y system adrodd ar ddigwyddiadau a'r amserlenni adrodd yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu, a'u monitro i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu gofal diogel yn New Hall.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y mecanwaith priodol wedi'i osod ar y drws tân ar Ward Clwyd.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Mae'r darparwr cofrestredig yn cyflogi staff cadw tŷ neilltuedig yn New Hall, ac mae'r nyrs bractis yn gweithredu fel arweinydd rheoli heintiau'r ysbyty.

Disgrifiwyd system o archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal gyda'r nod o ganfod meysydd i'w gwella er mwyn gallu cymryd camau priodol lle y bo angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo glanhau rheolaidd ac effeithiol ar y wardiau, ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ynghylch atal a rheoli heintiau.

Roedd yr offer glanhau yn cael eu storio a'u trefnu'n briodol ac roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol ar bob ward. Roedd biniau plastig penodol yn cael eu defnyddio i gadw a gwaredu offer meddygol miniog yn ddiogel, er enghraifft nodwyddau hypodermig. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod yr ysbyty yn lân ac yn rhydd rhag annibendod yn ôl pob golwg. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael ym mhob ardal o'r ward, y gegin, a'r manau ymolchi.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn manau perthnasol; fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai o'r peiriannau jêl saniteiddio'n wag ar Ward Clwyd drwy gydol yr arolygiad, sy'n effeithio'n negyddol ar drefnau rheoli heintiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau jêl saniteiddio'n cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad ydynt yn mynd yn wag.

Maeth

Canfuom fod cleifion yn cael dewis o brydau bwyd ar fwydlen bedair wythnos. Gwelsom fwydlen amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael dewis yr hyn roeddent am ei fwyta. Roedd ffrwythau ffres ar gael yn rhwydd i gleifion, a mynediad at ddiodydd ar bob ward.

Dyweddodd y staff wrthym fod darpariaeth ar gyfer cleifion â deietau penodol/arbennig, gan gynnwys deietau fegan ac anoddefiad i glwten a deietau sy'n bodloni anghenion crefyddol. Roedd yr ysbyty yn cynnal rhestr o anghenion deietegol a dymuniadau penodol, a byddai'r cogydd yn trafod â chleifion ynghylch y dewisiadau addas a oedd ar gael.

Roedd adborth y cleifion o ran y prydau bwyd ac opsiynau'r fwydlen yn cael eu casglu ac roedd hyn yn helpu wrth adolygu a pharatoi opsiynau ar gyfer y fwydlen. Nid oedd gan y cleifion y buom yn siarad â nhw bryderon o ran y prydau bwyd a oedd ar gael.

Yn ogystal â'r prydau bwyd a ddarperid, gallai'r cleifion ddefnyddio'r ceginau therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau bwyd eu hunain, a oedd yn caniatáu iddynt gynnal a dysgu sgiliau coginio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y gwaith o reoli meddyginiaeth ar y ddwy ward yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd y feddyginiaeth wedi'i storio'n ddiogel ac roedd cypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth wedi'u cloi. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa, ac roedd archwiliadau yn cael eu cynnal a oedd yn helpu'r rheolwyr a'r broses o ragnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Roedd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinigol yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio yn unol â'r tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Roedd gwiriadau stoc yn cael eu cynnal bob wythnos i sicrhau bod meddyginiaeth ar gael. Pe na bai meddyginiaeth ar gael, byddai hyn yn cael ei gofnodi ar system gofnodi digwyddiadau'r darparwr cofrestredig, a fyddai'n cael ei archwilio, a byddai gwersi yn cael eu dysgu o'r canlyniad.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir, er nad oedd unrhyw Gyffuriau a Reolir yn cael eu defnyddio yn yr ysbyty a oedd yn golygu nad oeddent yn cael eu storio ar adeg ein harolygiad.

Roedd y Siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth a adolygwyd yn nodi enw'r claf, ffotograff ohonynt, a'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys copiâu o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth ac roeddent yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i gweinyddu, a nodwyd rheswm pan nad oedd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Hefyd, roedd pob ward yn cadw cofnod o'r nyrs a oedd wedi cwblhau pob rownd feddyginiaeth. Roedd hyn yn darparu trywydd archwilio ychwanegol ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ogystal â llofnod y nyrs ar y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth.

Cynhaliwyd adolygiadau o feddyginiaeth cleifion yn ystod eu cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol. Pan oedd meddyginiaeth a ragnodwyd "yn ôl yr angen" yn cael ei defnyddio'n rheolaidd' trafodid hyn gan y tîm er mwyn datrys p'un a oedd angen ei rhagnodi fel meddyginiaeth reolaidd neu a fyddai dewisiadau eraill yn addas.

Roedd y staff yn gallu cael mynediad at bolisiau perthnasol o fewn yr ardaloedd clinigol a chopïau o Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain³

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd trefniadau wedi'u hen sefydlu ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Roedd ystafell neilltuedig ar gael oddi ar y wardiau ar gyfer plant a oedd yn ymweld.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

³Nod Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yw rhoi gwybodaeth gadarn gyfredol ynghylch sut i ddefnyddio meddyginiaethau i ragnodwyr, fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill

Roedd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn yr ysbyty, ac archwiliad bob wythnos o'r offer dadebru ar bob ward. Roedd y staff yn nodi pan oedd y rhain wedi digwydd er mwyn sicrhau bod yr offer ar gael. Fodd bynnag, nid oedd y gwiriad yn cynnwys sicrhau nad oedd unrhyw eitemau yr oedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio ymhlith yr offer dadebru, a gwnaethom nodi hyn ar Ward Clwyd a Ward Adferiad.

Ymatebodd Rheolwr yr Ysbyty yn brydlon wrth archebu eitemau newydd ar gyfer y rheiny yr oedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio, a diweddarodd y broses o archwilio'r offer dadebru i gynnwys gwiriadau o'r dyddiad dod i ben.

Roedd nifer o dorwyr rhwymynnau wedi'u lleoli drwy'r ysbyty i gyd rhag ofn bod argyfwng.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestedig roi gwybod i AGIC fod offer dadebru newydd wedi cael ei dderbyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol ar gyfer cleifion.

Roedd y trefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer yr ysbyty yn cael eu bwydo drwy drefniadau llywodraethu'r Darparwr Cofrestedig, a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Rheoli cofnodion

Roedd y cofnodion cleifion yn ffeiliau papur a oedd yn cael eu storio a'u cynnal mewn swyddfeydd y nyrsys dan glo. Gwelsom staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad. Roedd cofnodion y cleifion wedi'u trefnu'n dda ac roedd ansawdd y cofnodion o safon uchel broffesiynol.

Roedd systemau electronig dda ar waith er mwyn cofnodi digwyddiadau, archwiliadau llywodraethu a chlinigol, a systemau trefniadaeth eraill a oedd yn cynorthwyo'r rheolwyr a'r gwaith o redeg yr ysbyty.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pump o'r cleifion ar draws y tair ward. Gwnaethom adolygu'r prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith ar gyfer monitro'r defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod yr hawl i gadw cleifion wedi cael ei chymhwyso a'i hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf, a bod copïau o bapurau cadw cyfreithiol ar gael i staff y ward yn yr ysbyty. Cafodd y broses o adnewyddu cadw ei chymhwyso'n briodol ar ffurflenni statudol a'i dogfennu'n glir mewn cofnodion cyfarfodydd amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, ni wnaethpwyd unrhyw gofnod yng nghofnodion dyddiol y claf a fyddai'n hysbysu staff y ward yn glir bod yr achos o gadw wedi cael ei adolygu.

Roedd cofnodion clir i ddangos bod cleifion yn cael eu hysbysu ynghylch eu hawliau statudol yn rheolaidd drwy gydol eu cyfnod cadw.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei darparu i gleifion yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, Cydsyniad i Driniaeth. Roedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda'r siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth gyfatebol. Golygai hyn y gallai staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth Adran 58 y Ddeddf.

Gwnaethom nodi hefyd fod yr holl absenoldebau trwy ganiatâd wedi cael eu hawdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17, yn gyfredol ac yn cael eu cofnodi'n dda. Cyn rhoi unrhyw ganiatâd absenoldeb, roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cwblhau asesiad risg manwl iawn. Yn dilyn ein sgysiau â Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl diweddarwyd templed awdurdodi Absenoldeb Adran 17 i gynnwys adran i'r staff gofnodi p'un a oedd y claf wedi derbyn copi ai peidio; gan nad oedd hyn yn amlwg ar y templed blaenorol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestedig sicrhau bod cofnod o achosion o gadw sy'n cael eu hadnewyddu yn cael wneud mewn cofnodion dyddiol y claf.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o bedwar claf.

Roedd tystiolaeth bod cydlynwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion a, lle bo'n briodol, bod aelodau teulu yn cael eu cynnwys yn y trefniadau cynllunio gofal. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur

Cymru, gydag amcanion mesuradwy, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth unigol yn pwysleisio cryfderau unigolion ac yn canolbwyntio ar adfer, adsefydlu a bod yn annibynnol. Roedd y rhain yn cael eu datblygu gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol ac yn cynnwys monitro iechyd corfforol da a hybu iechyd. Gwnaethom nodi yng nghynllun gofal un claf nad oedd angen iechyd corfforol hanesyddol a allai ddod yn ôl wedi cael ei nodi. Roedd asesiadau ac atgyfeiriadau priodol wedi cael eu cynnal ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty; er hynny, nid oedd hyn wedi cael ei nodi yn y cynllun gofal, a fyddai'n cynorthwyo'r staff pe byddai'r angen iechyd corfforol yn digwydd eto.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth eang o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a ddarperir i gleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau canfyddedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Fodd bynnag, roedd hefyd yn gyffredin i'r staff beidio â nodi'n glir unrhyw anghenion heb eu diwallu a allai fod gan y claf pan oeddent yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Mae'n bwysig bod anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi er mwyn iddynt gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaeth er mwyn edrych ar opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu nodi yn eu Cynlluniau Triniaeth a Gofal.

Deddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Ar adeg ein harolygiad, cadarnhaodd staff nad oedd unrhyw gleifion yn destun awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn New Hall, gyda chefnogaeth gan dîm staff ymroddedig a oedd yn deall anghenion cleifion yr ysbyty'n dda.

Roedd yr ysbyty wedi sefydlu dull gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol a oedd yn croesawu safbwyntiau'r staff mewn modd agored a pharchus. Roedd gan yr ysbyty adnoddau staff sefydlog a oedd yn darparu gofal cyson sy'n canolbwyntio ar y claf.

Roedd y broses o recriwtio yn agored a theg, gyda gwiriadau cyflogi priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogi ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth. Roedd y staff yn cyflawni hyfforddiant gorfodol, sesiynau goruchwylio, ac arfarniadau blynyddol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod systemau a phrosesau clir iawn ar waith er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, drwy raglen archwilio dreigl a'i strwythur llywodraethu sefydlog, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/a enwebwyd i gwrdd yn rheolaidd i drafod y canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion.

Roedd gan uwch-reolwyr penodedig gyfrifoldebau penodol dros sicrhau bod y rhaglen ar gyfer llywodraethu'n rhan amlwg o ddarparu gwasanaeth. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi er mwyn eu hadolygu.

Cadarnhaol oedd clywed bod y darparwr cofrestredig wedi ymuno â'r sefydliadau achredu safonol proffesiynol i ysgogi'r sefydliad i safonau proffesiynol a gydnabyddir. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal ac ansawdd profiad y claf. Roedd Rheolwr yr Ysbyty yn glir ynghylch datblygiad

gwasanaeth parhaus a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer achredu mewn perthynas â'r gweithlu a'r rheolwyr.

Drwy ein sgysiau â staff, arsylwi ar ymgysylltiad y tîm amlddisgyblaethol, ac adolygu cofnodion cleifion, gwelsom dystiolaeth o waith tîm amlddisgyblaethol cryf yn New Hall. Gwnaeth y staff siarad yn gadarnhaol o ran y gwaith amlddisgyblaethol, gan nodi eu bod yn teimlo bod staff eraill yn gwrando ar eu barn ac yn ei pharchu.

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, fod y staff yn New Hall yn agored i'n safbwyntiau, ein canfyddiadau, a'n hargymhellion; roedd y rhain yn cynnwys gweithredu'r gwelliannau yn ystod yr arolygiad lle roedd hynny'n bosibl.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd prosesau sefydledig ar waith er mwyn ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn New Hall, ac ar lefel gorfforaethol drwy fecanweithiau adrodd rheolaidd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom adolygu'r strwythur staffio yn New Hall; nid oedd unrhyw swyddi gwag ar gyfer nyrsys na gweithwyr cymorth gofal iechyd yn yr ysbyty. Pe bai diffyg o ran llenwi gofynion y rota staffio roedd yr ysbyty yn defnyddio system banc yr ysbyty. Ni fu'n rhaid i'r ysbyty ddefnyddio nyrsys asiantaeth yn aml, fodd bynnag, ar ôl adolygu'r cofnodion roedd yn amlwg bod y staff asiantaeth hyn yn unigolion a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a chyda'r grŵp cleifion, a oedd o gymorth o ran dilyniant gofal ar gyfer cleifion.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff yn New Hall a chanfuom fod y cyfraddau cwblhau yn uchel iawn. Roedd y system electronig yn rhoi manylion cydymffurfiaeth â'r cwrs a manylion cydymffurfiaeth aelodau staff unigol. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn mynychu hyfforddiant ychwanegol a chynadleddau a oedd yn berthnasol i'w swyddogaethau, a dywedon nhw eu bod yn teimlo bod y sefydliad yn buddsoddi yn eu datblygiad proffesiynol.

Roedd y staff yn cyflawni hyfforddiant gorfodol ac yn cwblhau arfarniadau perfformiad ac adolygiadau datblygiad blynyddol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn New Hall a gwnaethom edrych ar sampl o ddeg o ffeiliau'r staff. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn proses agored a theg; gyda chofnodion o geisiadau, cyfweliadau a chyfathrebu'n cael eu cadw ar bob ffeil. Roedd geirdaon y staff yn cael eu casglu, cymwysterau proffesiynol yn cael eu gwirio, a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal cyn cyflogi staff, a'u hadnewyddu bob tair blynedd.

Roedd y darparwr cofrestredig yn cynnal ffeiliau staff asiantaeth, a oedd yn cynnwys manylion hyfforddiant perthnasol a gwiriadau cyflogaeth.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bôn yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein hadolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol fel arfer yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar gael ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Annibynnol New Hall

Wardiau:Ward Adferiad , Ward Clwyd a Ward Glaslyn

Dyddiad yr arolygiad: 20 – 22 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael hyfforddiant sefydlu ar gyfer y gampfa er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r cyfleuster hwn yn ddiogel.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Ar ôl colli ein hyfforddwr gampfa blaenorol, mae'r adran hyfforddiant wedi cael ei holi ynghylch gwneud cais am gyrsiau hyfforddiant addas ar gyfer aelodau staff New Hall.	Margret Shannon / John Bromfield	1 mis
		Mae'r adran Therapi Galwedigaethol yn cysylltu â darparwyr lleol er mwyn ceisio dod o hyd i ymgeiswyr posibl a fyddai'n gallu cynnig hyfforddiant campfa ar gyfer cleifion New Hall.	Lee Bebbington	1 mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu gosod ar y drysau.	10. Urddas a pharch	Mae'r holl ddrysau heb arwyddion wedi cael eu nodi ac mae archeb wedi cael ei wneud i brynu arwyddion priodol ar gyfer y drysau. Yn y cyfamser, mae arwyddion dros dro wedi cael eu gosod ar y drysau, i sicrhau bod pawb yn deall beth yw diben yr ystafell.	John Bromfield John Bromfield	2 – 4 wythnos Cwblhawyd
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y mecanwaith priodol wedi'i osod ar y drws tân yn Ward Clwyd.	22. Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae'r mecanwaith drws tân priodol wedi cael ei archebu a'i osod.	Andy Bray	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau jêl saniteiddio'n cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad ydynt yn mynd yn wag.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae'r cynwysyddion ail-lenwi ar gyfer y peiriannau jêl saniteiddio wedi cael eu gosod/newid. Mae gwiriadau rheolaidd wedi cael eu hychwanegu at y drefn ddomestig.	Beth Edwards Beth Edwards	Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestedig roi cadarnhad i AGIC fod offer dadebru newydd wedi cael eu derbyn.	16. Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Ar ôl cael cyngor can Speeds Pharmacy, cawsom ar ddeall bod gan yr eitemau oes silff o bum mlynedd, a oedd yn golygu y byddai'n bosibl eu defnyddio o hyd. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan AGIC, mae'r holl offer newydd wedi cael eu harchebu a'r hen offer wedi cael eu disodli.	Linda Hull	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestedig sicrhau bod cofnod o achosion o gadw sy'n cael eu hadnewyddu yn cael ei wneud mewn cofnodion dyddiol y claf.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Yn dilyn yr adborth gan AGIC, mae New Hall wedi sicrhau bod cofnod o achosion o gadw a adnewyddwyd yn cael ei nodi mewn cofnodion dyddiol y claf.	Clinigydd Cyfrifol	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu nodi yn eu Cynlluniau Triniaeth a Gofal	Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Mae'r holl ddogfennau bellach wedi cael eu diweddarau i gynnwys "anghenion heb eu diwallu".	Linda Hull	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): John Bromfield

Swydd: Rheolwr yr Ysbyty

Dyddiad: 7 Rhagfyr 2017